O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 2947 (Cy. 301)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Cyfronnydd i Heniarth, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed	*26 Tachwedd 2012*
Yn dod i rym	*30 Tachwedd 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Amwythig – Dolgellau (yr A458) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Tachwedd 2012, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Cyfronnydd i Heniarth, Powys) (Cyfyngiadau a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 08:00 o'r gloch ar 30 Tachwedd 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gefnffordd yr A458 yn Sir Powys sy'n ymestyn o ganolbwynt ei chyffordd â'r B4392 yng Nghyfronnydd hyd ganolbwynt ei chyffordd â'r B4389 yn Heniarth.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.